# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y cwestiwn atodol i OAQ23852, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog Cyllid, ar 2 Ebrill 2003

**At Lorraine Barrett:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Ebrill, addewais y byddwn yn gwneud ymholiadau pellach mewn perthynas â'r cwestiwn a ofynnwyd gennych yn y Cynulliad ynglŷn â grant a ddyfarnwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i atgyweirio tŷ ym Mhenrhiwceiber.

Fe'm hysbyswyd gan fy swyddogion, wedi iddynt gysylltu â'r awdurdod lleol, fod tua £290,000 wedi'i wario ar ddau dŷ. Y prif reswm dros y gwariant oedd i ailadeiladu wal gynhaliol fawr yng nghefn y tai. Yr oedd yn rhaid gwneud hyn yn y graig islaw'r wal. Mae'r cyngor, gyda chymeradwyaeth yr archwilydd dosbarth, yn cynnal ymchwiliad i'r achos.

Yr wyf yn rhoi copi o'r llythyr hwn yn y Llyfrgell.